**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

11 Ebrill 2023

Annwyl Rebecca,

Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Caffael

Diolch am eich ymateb cychwynnol, a roddwyd yn ystod y ddadl ddiweddar yn y Senedd ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol, i adroddiad diweddaraf fy Mhwyllgor ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd mewn perthynas â Bil Caffael Llywodraeth y DU. Mae'r adroddiad, a osodwyd ar 14 Mawrth 2023, yn cynnwys tri argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'n destun siom, felly, na chafwyd ymateb ysgrifenedig ffurfiol gan y Llywodraeth cyn y ddadl, o ystyried bod pythefnos wedi mynd heibio ers i'r adroddiad gael ei osod. Credaf y byddai hyn wedi cyfoethogi'r ddadl yn fawr, ac y byddai wedi rhoi eglurder mawr ei angen ar rai o'r materion cymhleth sy'n cael eu hystyried yn y memoranda.

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech nodi eich ymatebion ysgrifenedig i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad cyn gynted â phosibl, ac o fewn pythefnos i'r llythyr hwn.

Yn ystod y ddadl, gofynnais ichi hefyd a oeddech wedi uwchgyfeirio eich pryderon ynghylch y pwerau i wneud rheoliadau yng nghymal 89 o'r Bil (i ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9) ac yng nghymal 92 o'r Bil (i ymdrin â chanlyniadau caffael anghydfodau masnach) drwy'r Broses ryngllywodraethol ar gyfer Osgoi a Datrys Anghydfodau. Byddwch yn cofio i chi ddweud, mewn ymateb i adroddiad fy Mhwyllgor ar y memorandwm cyntaf a'r ail femorandwm a osodwyd mewn perthynas â'r Bil, nad oedd yn bosibl nac yn briodol darogan pryd y byddai perthnasau'n methu i'r pwynt lle dylid ystyried defnyddio mecanweithiau datrys anghydfodau. Fodd bynnag, ddywedsoch yn ystod y ddadl fod y materion sy'n peri pryder i chi yn y Bil " yn fygythiad i egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol a'n setliad datganoli", felly nid yw'n glir pam nad yw'n

ymddangos eich bod wedi uwchgyfeirio'r pryderon hyn eto, gan y bydd y darpariaethau hyn ar y llyfr statud cyn bo hir.

Byddwn yn ddiolchgar felly hefyd pe gallech gadarnhau a ydych bellach wedi uwchgyfeirio'r pryderon hyn drwy'r Broses Osgoi a Datrys Anghydfodau, ac os nad ydych wedi gwneud hynny eto, pe byddech yn esbonio pam.

Yn olaf, nodaf eich sylwadau ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael i'r Senedd gynnal gwaith craffu (paragraffau 458–459 o'r trawsgrifiad), ond hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa nad yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol na'r rheoliadau a wneir o dan y Bil (ar ôl ei ddeddfu) yn cynnig yr un amser na'r un cyfle manwl i gynnal gwaith craffu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid â'r hyn a geir yn achos Bil a gyflwynir i'r Senedd gan Lywodraeth Cymru.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament